**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

8 Ionawr 2018

Annwyl Kirsty

Fel y gwyddoch, yn ystod y cyfarfod ar 6 Rhagfyr, cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sesiwn gyda Cymwysterau Cymru i graffu ar ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015-16. Yn ystod y sesiwn honno, codwyd rhai materion y mae'r Pwyllgor yn dymuno eu dilyn gyda chi.

Codwyd mater gyda Cymwysterau Cymru ynghylch llyfrau testun sydd ar gael yn Gymraeg ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu dilyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y trafodaethau, cadarnhaodd Cymwysterau Cymru, nad yw 'digonolrwydd' o ran adnoddau sydd ar gael wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Cymwysterau Cymru y byddent yn cynnal darn o waith ar y mater hwn. Fodd bynnag, cyn unrhyw waith a wneir, a wnewch chi gadarnhau'r canlynol:

**Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ganfod p'un a oes prinder deunyddiau Cymraeg, ac os oes prinder, pa gamau sydd wedi'u cymryd i unioni hynny.**

**Pwy sy'n gyfrifol am ddiffinio beth yw ystyr 'digonolrwydd' o ran yr adnoddau sydd ar gael i'r dysgwr.**

Yn dilyn y mater hwn, roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu nad oedd llyfrau testun cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynhyrchu gan nad oeddent yn cael eu hystyried yn hyfyw yn ariannol.

**A allwch chi gadarnhau os nad ystyrir eu bod yn hyfyw i gynhyrchu llyfrau testun cyfrwng Cymraeg penodol, p'un a oes unrhyw siawns i gyfuno'r gwaith o**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

**gynhyrchu'r llyfrau penodol hynny â llyfrau testun eraill yr ystyrir eu bod yn hyfyw yn ariannol?**

Edrychaf ymlaen at eich ymateb ynghylch y materion hyn.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**